# VI

# HAD YR EGLWYS A FU'N DILYN GYRFAOEDD AMRYWIOL

Diddorol yw cofnodi hanes rhai o blant yr eglwys a fu'n cyflawni amrywiol weithgareddau, a hynny mewn gwahanol rannau o'r wlad hon yn ogystal ag mewn gwledydd tramor. Mae'n wir mai dilyn galwedigaeth megis amaethu, yn y filltir sgwâr, a wnaeth y rhan fwyaf o had yr eglwys, gan geisio gwarchod eu hetifeddiaeth. Mentrodd eraill allan o'u cynefin i chwilio am fywoliaeth. Yn yr un gymdogaeth yr eginodd had y cyfryw rai. Gwelwyd hwy'n tyfu, yn datblygu ac yn lledu i wahanol gyfeiriadau, gan brofi fod y gwrtaith a gafwyd yn fodd i feithrin pob math o bersonoliaeth.

**Thomas W. Davies**

Ym 1831 y ganed Thomas W. Davies, yn fab i Thomas a Sarah Davies o Lwynowen, fferm fechan a saif ar ochr y ffordd rhwng yr Hen Dŷ Cwrdd a chapel presennol Esgairdawe. Roedd Thomas o deulu parchus a phrofodd ei fod yn meddu ar bersonoliaeth a gallu arbennig, gan ymdebygu i'r enwog Ddoctor William Davies, Ffrwd-fâl a oedd yn gefnder i'w dad. Fel ei ewythr, dehonglai Thomas broblemau'n ymwneud â rhifyddeg gyda medrusrwydd anghyffredin.

Pan oedd yn ŵr ieuanc, 'roedd llawer o borthmyn enwog yn sir Gaerfyrddin, ac yn eu plith, deulu'r Marten. Cyfarfu Thomas â Victoria, aelod o'r teulu hwn. Rhoddodd ei serch a'i fryd arni am ei bod yn eneth ddeniadol iawn yr olwg. Ymbriododd y ddau, ond, gwaetha'r modd, fe drodd Victoria allan yn wermod llwyr iddo. Ni fedrai ddygymod â'i hymddygiad tuag ato ac fe sylweddolodd mai ffolineb ar ei ran oedd credu mai'r hyn a wêl y llygad yw'r peth pwysicaf wrth ddewis cymar bywyd.

Gwerthfawr fyddai i'r ieuenctyd i chwilio mwy am brydferthwch moesol na phrydferthwch yr wyneb, er mwyn hapusrwydd bywyd.[1]

Ymfudodd Thomas i'r Amerig ym 1871, ac yntau'n ddeugain oed, gan drigo yn Springwater am ryw dair neu bedair blynedd a chael cyfle i anghofio'i ofidiau blin. Yna, ymgartrefodd mewn lle o'r enw Town of Rose yn Wisconsin, un o Daleithiau'r Amerig – ar dir a brynodd iddo'i hun. Felly, amaethwr ydoedd ac ar wahân i adeg y cynhaeaf, byddai'n byw wrtho'i hun, a phawb yn cyfeirio ato fel 'Thomas Davies, y bachelor'. Câi ei goffáu fel dyn, cymydog a Christion.

Meddai ar gorff o daldra cyffredin, yn gryf a chyflym ei symudiad, ac er iddo gael profiadau chwerw yn ei fywyd priodasol, byddai'n siriol bob amser. Hwyrach i'r gair 'Rhosyn' yn enw'r lle hwnnw fod o gymorth iddo i ymlid ymaith y drain a'r ysgall a fu'n rhwygo ei galon yng ngwlad ei enedigaeth. Yn ôl y modd y cyfeiriai'r bobl ato, gellid tybio na fu'n rhannu ei brofiadau â hwynt, ond efallai iddo sôn amdanynt wrth ei gyfeillion. Roedd gan Thomas ei feddyliau ei hun a gweithredai'n unol â hynny, gan ymatal rhag derbyn syniadau pobl eraill, boed iddynt fod yn ddoeth neu'n annoeth. Yn hynny o beth, ymddangosai fel pe bai'n eithafol ei ymddygiad, drwy fod mor benderfynol – ond ni ellir cyfrif anwadalwch yn un o rinweddau'r bod dynol chwaith. Ni wyddys faint o fanteision addysg a gafodd, ond medrai gystadlu ag unrhyw un mewn gwybodaeth gyffredinol a gallai dafoli problemau gyda chywirdeb. Roedd yn casáu rhagrith a byddai'n ymddwyn yn naturiol a diffuant.

Mae'n anodd dirnad sut y daeth bachgen o ardal Esgairdawe yn berchennog ar ddarn o dir yn yr Amerig, heb sôn am wedd o geffylau a oedd yn rhagori ar rai ei gymdogion, a hynny yn y ganrif ddiwethaf. Ond nid i'w ddibenion ei hun y cadwai Thomas Davies ei geffylau. Gwyddai beth oedd ystyr y gair 'cymydog'. Byddai'n cynorthwyo ei gymdogion pan fyddai galw am fynd â llwyth i'r farchnad neu gyflawni rhyw orchwyl ar y tir, a'r tâl a ddisgwyliai am hynny yn ddim mwy na 'diolch'.

Nid yw'n syndod mai aelod o Eglwys Gynulleidfaol ydoedd wedi iddo ymadael â Chymru o gofio am Gapel Annibynnol Esgairdawe. Ceir tystiolaeth fod ei fam, Sarah Davies, yn aelod yno, oherwydd gwelir ei henw ymhlith enwau'r aelodau yng *Nghofrestr yr Eglwys*. Credai Thomas fod y drefn Gynulleidfaol

yn gweddu i'r drefn Feiblaidd, ond parchai bob Cristion i ba enwad bynnag y perthynai. Cefnogai bob ymdrech grefyddol a rhoddai ei law yn ddwfn yn ei logell, ond, wrth ymwneud â phethau'r byd hwn, dangosai gynildeb. Cymerai ran yn yr eglwys drwy weddïo'n afaelgar a distaw, ond llefarai'n huawdl drwy ei ymarweddiad.

Ym 1895, cafodd ei daro'n sydyn gan y clefyd, 'pneumonia'. Daeth ei gymdogion ato i weini arno a dywedodd wrthynt y carai farw'n esmwyth. Cafodd ei ddymuniad. Ar ôl chwe niwrnod o gystudd blin, bu farw'n dawel yn ei gartref ar Fai 31ain, yn drigain a phedair mlwydd oed, –

> dywedwn i ni golli brawd a chyfaill, ag y bu y ddaear yn well o iddo fod arni yn ei waith, cymdeithas yn well o hono, a'r eglwys yn well o hono, a cha y naill a'r llall deimlo y golled o'i golli.[2]

Dyma rai o eiriau'r Parchedig Daniel Thomas ar ddydd ei angladd: dywedai fod

> Thomas Davies wedi cadw ei grefydd drwy ei oes, er cymaint y stormydd a fu yn curo arno.[3]

Gorffennodd Timothy Jones, Springwater, Wisconsin ei deyrnged iddo, yn y Cenhadwr Americanaidd, gyda thri phennill. Dyma un ohonynt:

O mor galed y'w dy golli,
  Wedi bod flynyddau'n hoes,
Gyda'n gilydd trwy dreialon
  Chwerw a blinion dan y groes.
Cofio'r canu a'r cydweithio
  Yn y tŷ ein dau yn nghyd,
Ag adgofio'r hen brofiadau,
  Duw a wyr am 'rhain i gyd.[4]

Ymfudodd nifer dda o Gymry i'r Amerig ar hyd y blynyddoedd. Daw llawer ohonynt yn ôl i'w mamwlad ar achlysur megis yr Eisteddfod Genedlaethol. Cadwant eu hiaith drwy ei hymarfer yn gyson. Ceir hanes am Gymanfa Ganu Gymreig a gynhelir yn flynyddol yng Nghapel Peniel, Wisconsin, pan ddaw'r Cymry ynghyd i ganu'r hen emynau. Cânt lawer o hwyl hefyd drwy gael bwyd allan o fasgedi gwiail ar y diwrnod arbennig hwn.

**D.J. Williams**

Ni ellir dechrau ychydig o hanes D.J. Williams yn well na thrwy ddefnyddio geiriau agoriadol y llenor gwlatgar ei hun, pan ysgrifennodd ei hunangofiant yn y gyfrol, *Hen Dŷ Ffarm,* –

> Fe'm ganed i, David John Williams, medde nhw, ym Mhenrhiw, plwyf Llansawel, Sir Gaerfyrddin, rhwng pedwar a phump o'r gloch y bore, y 26 o Fehefin, yn y flwyddyn 1885.[5]

Ym Mhen-rhiw, yn ardal Esgairdawe y treuliodd ei blentyndod. Âi i Gapel Esgairdawe yng nghwmni ei rieni ac fe geir ei atgofion am y capel mewn pennod arall. Symudodd y teulu i Aber-nant, ger Rhydcymerau pan oedd Dafy John yn chwech oed a dyma un o'r dyddiau mwyaf cofiadwy iddo. Cyfeirir ato yn yr ardal fel Dafy John, Abernant, ond pwysleisia yn ei gyfrol, *Yn Chwech ar Hugain Oed* mai ym Mhen-rhiw, yr Hen Dŷ Ffarm y cafodd ei wreiddiau.

Er bod Pen-rhiw i'w weld yn eglur o ddrws y capel, nid peth hawdd i blentyn byrgoes o dan chwech oed, oedd cwblhau'r daith o ddwy filltir, i fyny ac i lawr y rhiwiau serth. Felly, yn llaw ei dad neu ei fam yr âi Dafy John i'r capel. Pan fyddai ei Nwncwl John, Gwar-coed, brawd ei fam, yn y cwrdd, yn ei law ef y dychwelai y rhan gyntaf o'r ffordd. Wrth nesu at waelod rhiw Cwm Dawe, lle gwahanai pobl Pen-rhiw a phobl Gwar-coed, deuai rhyw gyffro dros y plentyn, –

> Cydiai Nwncwl John â'i law fawr esgyrnog yn fy llaw i fel feis, gan geisio fy nhynnu gydag ef i Warcoed. Stranciwn innau gan lynu am fy mywyd wrth bwy bynnag o deulu Penrhiw a fyddai genny ar y pryd, rhag cael fy nwyn oddi arnynt yn erbyn fy ewyllys.[6]

Plentyn swil oedd Dafy John ac, o ganlyniad, ni fyddai'n barod i gymryd at ddieithriaid. Ni châi lawer o gyfle i gymysgu â phobl am fod Pen-rhiw mor ddiarffordd. Er hynny, 'roedd ganddo ei ffrindiau, – yr hen John Ifans, Bryndafydd Isaf oedd ei ffefryn a dywedai bopeth wrtho; y tri arall oedd ei Nwncwl Dafydd yr Esgair; William John, gwas yr Esgair ac Ifan, gwas Esgair Wen – dynion oeddent i gyd.

Medrai Dafy John gofio'n fyw iawn am bethau a ddigwyddodd ym Mhen-rhiw, er iddo symud oddi yno'n ifanc. Lleoliad y digwyddiadau oedd yn cyfrif am hynny, – y tŷ, y clos, y caeau neu lan yr afon ar odre'r tir. Oherwydd iddo ymadael â'r lle, medrai wahanu'r pethau a gofiai am y cyfnod hyd chwech oed

a'r hyn a ddigwyddodd wedyn. Y peth cyntaf a gofiai amdano'i hun oedd sylweddoli eu fod yn aelod o deulu mawr, yn cynnwys ei rieni, Pegi, ei chwaer, ei Nwncwl Jâms, y gweision, y morynion a'r gweithwyr a ddeuai yno ar adegau arbennig.

Dyma a ddywed Dafy John am ei fam, –

> Perthynai i'm mam ddyfnder a dwyster cymeriad a gwir wyleidd-dra ysbryd ... 'Roedd hi'n gwbl ddi-hunan a di-awydd am gael ei gweld. Y bywyd mewnol oedd ei thrysor hi ... Un llyfr oedd ganddi, – y *Beibl,* ac esboniad Jâms Hughes, fel gwas da iddo ... Ar hyd ei hoes wedi symud i Abernant bu hi a Nel 'r Efail Fach yn ddwy gyd-athrawes ... yn Ysgol Sul Rhydcymerau.[7]

Pethau cyffredin oedd yn apelio at Dafy John, – aeth gyda'i fam i farchnad Llandeilo ryw ddwy neu dair gwaith i werthu menyn, wyau a ffowls. Dysgodd enwau pob fferm a thŷ ar ochr y ffordd ac o fewn golwg. Medrai ddisgrifio hen dŷ Pen-rhiw – 'tŷ to gwellt hir ac isel'. Fel llawer o'r hen dai 'roedd wedi ei adeiladu ar ochr un o'r bronnydd serth. Cofiai glywed mai i Ben-rhiw y daeth y dyrnwr a'r nithiwr cyntaf i'r ardal, ac mai yno hefyd y codwyd y tŷ gwair cyntaf.

Yn fuan wedi Gŵyl Fihangel, 1891 y symudodd y teulu i Aber-nant. Dechreuodd Dafy John fynychu ysgol Rhydcymerau. Ni chawsai gyfle cyn hynny i gymysgu â phlant o'i oed ef. Gadawodd yr ysgol pan oedd yn ddeuddeg oed, gan ddewis aros gartref i helpu ei dad gyda gwaith y tyddyn. Ymhen blwyddyn, derbyniwyd ef yn aelod o Gapel Rhydcymerau. Arferai fynd i'r Ysgol Sul yn gyson, ac adroddai nifer dda o'r disgyblion eu hadnodau mewn cwrdd gweddi a seiat. O dipyn i beth, sylweddolwyd nad oedd digon o fywoliaeth i ddau yn Aber-nant, ac fe anogwyd Dafy John, gan ei fam, i fynd i Ysgol Sir Llandeilo. Ond er ei hoffter tuag at lyfrau, gwrthododd y cynnig. Yna, penderfynodd fynd i weithio i'r pwll glo, gan adael ei gartref am y tro cyntaf ar y pedwerydd o Ionawr, 1902, ac yntau'n un mlynedd ar bymtheg a hanner oed. Bu'n gweithio yng nghymoedd Rhondda, Aman a Dulais.

Wedi pedair blynedd o waith caled a dioddef llwch a lludded yn y talcen glo, dechreuodd ymresymu ag ef ei hun, ond methodd wneud unrhyw benderfyniad. Fodd bynnag, ym mis Mai, 1906, clywodd fod ei ewythr, Dafydd Gwar-coed, sef Derwenydd Morgan, hanner brawd ei fam, wedi dychwelyd o'r Amerig ar ôl treulio rhai blynyddoedd yn weinidog ar eglwysi

yn nhaleithiau Kansas a Colorado. Clywodd hefyd fod ei ewythr yn bwriadu mynd yn ôl i'r Amerig tua diwedd yr haf hwnnw, a breuddwyd Dafy John oedd ymuno ag ef a phrynu 'ffarm byffalos' yn nhalaith Kansas. Nid felly y bu oherwydd penderfynodd Derwenydd aros yng Nghymru.

> Ymyrrodd Rhagluniaeth. A chanlyniad ... hwnnw yw fy mod i'n sgrifennu'r llyfr hwn ... yn lle rhoi fy hanes fel Brenin y Cyrn Byffalos ... neu, yn debycach o lawer, yn hen ŵr bach yn sôn yn atgofus amdanaf fy hun yn torri coed pys rywle tua godre'r Mynydd Creigiog.[8]

Felly, daeth Dafy John adre adeg y Sulgwyn, 1906, yn awyddus am gael rhagor o addysg, ac ym mis Medi, aeth i Ysgol Baratoawl Mr. Stephens yn Llanybydder. Roedd yno nifer o fyfyrwyr yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, –

> y ddau frawd o Esgerdawe, John Washington ac Evan Tawe Jones, offeiriaid parchus yn yr Eglwys yng Nghymru wedi hynny.[9]

Ar ôl naw mis, gadawodd Dafy John yr ysgol honno, gan ddilyn cwrs gohebol ac ennill y 'King's Scholarship', ond cyn cael ei dderbyn i Goleg Hyfforddi, 'roedd yn rhaid cael profiad dysgu. Wedi bod yn athro cynorthwyol yn Llandrillo, aeth i Ysgol Joseph Harry yn yr Hen Goleg Caerfyrddin cyn mynd i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Choleg yr Iesu, Rhydychen, lle graddiodd ym 1918. Penodwyd ef yn athro yn Ysgol Sir Abergwaun, lle bu o 1919 hyd 1945, yn dysgu Saesneg i ddechrau a Chymraeg yn ddiweddarach. Treuliai oriau i farcio gwaith ei ddisgyblion a dyma'i ddedfryd ynglŷn â chynnwys eu traethodau, 'Heb ddyfyniadau, heb farciau'.

Magwyd ef ar aelwyd grefyddol ac nid yw'n syndod iddo, ar un adeg, fod â'i fryd ar y weinidogaeth. Eithr nid oedd ei leferydd yn ddigon rhwydd a dewisodd fod yn athro. Er hynny, bu'n bregethwr lleyg gyda'r Methodistiaid a blaenor yng Nghapel Pen-towr, Abergwaun. Dychwelai'n aml i Esgairdawe. Dyma'r fan lle câi ysbrydoliaeth:

> Cyn dod at hanes gadael Penrhiw ... rhaid i mi sôn yma am un peth ... sydd wedi aros yn ddigon byw yn fy meddwl, – sef y ddyletswydd deuluaidd. Fe'i cynhelid bob bore, yn ddifwlch, ... cyn codi oddi ar frecwast ... Cenid emyn cyfarwydd i ddechrau, ac yna darllenid rhan o'r ysgrythur a mynd i weddi ... Rhwng fy nhadcu a 'nhad ar ei ôl cadwyd y ddyletswydd deuluaidd ar aelwyd Penrhiw ac aelwyd Abernant ... yn ddi-dor am dros drigain mlynedd.[10]

Dylanwadodd hyn yn drwm arno a datguddiai nodweddion Cristion cydwybodol. Pan ddychwelai i angladd câr a chyfaill, arferai galonogi'r gweinidog, y Parchedig Giraldus Jones, gan roi rhywbeth yn ei law heb fod neb yn ymwybodol o hynny. Nid rhyfedd iddo ddyheu am ddychwelyd i'w fro enedigol, –

> I mi, dyma fro y broydd, y godidocaf ohonynt oll. Dysgais ei charu, mi gredaf, cyn dysgu cerdded... Dyma wlad fy nhadau mewn gwirionedd. Fe'm meddiannwyd i ganddi... fe'i meddiannwyd hithau gennyf innau. Prin y collais wyliau erioed heb ymweled â hi... Nid oes i mi gartref ysbrydol ond yma. Y brogarwch cyfyng hwn... a'i ganolbwynt yn "y filltir sgwâr" yn Hen Ardal fach fy mebyd lle y gwelais i bethau tecaf bywyd a'm gwnaeth i yn Shirgar anobeithiol.[11]

Ym 1925, pan oedd yn ddeugain oed, ymbriododd â Siân, merch y Parchedig a Mrs. Dan Evans, Hawen a chwaer Wil Ifan. Treuliodd y ddau bron ddeugain mlynedd o fywyd priodasol, ac fe gafodd Dafy John bob cymorth ac ysbrydiaeth gan Siân i gyflawni'r hyn y safai drosto.

Heddychwr oedd y gwron hwn. Dangosodd hynny pan ymunodd â Saunders Lewis a Lewis Valentine i losgi'r Ysgol Fomio ym Mhen-y-berth ym 1936. Rhoddodd y tri eu hunain i fyny a thraddodwyd hwy i naw mis o garchar a'r peth cyntaf a wnaeth Dafy John wedi cyrraedd 'Wormwood Scrubs' oedd gofyn am ganiatâd i gael Beibl Cymraeg. Arferai fyfyrio yn ei Feibl am hanner awr bob nos cyn noswylio. Nid yn hawdd y cafodd ddychwelyd i'w swydd yn Ysgol Abergwaun, ond pan addawodd beidio cyflawni gweithred o'r fath eto, fe'i derbyniwyd yn ôl.

Yn y tridegau, cymerwyd Pen-rhiw, ar rent, gan ferch i gyfyrder Dafy John, sef Mary Anne George, Bryndafydd uchaf. Bu hi a'i theulu yn amaethu yno hyd 1950. Yr adeg honno, 'roedd y tŷ yn wag a dymuniad Dafy John oedd ei gadw mewn cyflwr gweddol. I'r perwyl hynny, trefnodd i'r crefftwyr Dafydd a Joshua Williams o Lanybydder, perthnasau iddo, ymgymryd â'r gwaith o'i atgyweirio, gyda'r gobaith o ddenu rhai o blant Bryndafydd i fyw yno. Er siom i'r perchennog, ni wireddwyd hynny am fod y lle mor anodd i'w gyrchu. Dirywiodd yn fawr yn ystod y degawdau diwethaf. Yn wir, dim ond rhan o'r mur a ailadeiladwyd, y pryd hwnnw, sy'n aros o'r ffermdy enwog.

Diwrnod pwysig ym mywyd teulu Bryndafydd oedd yr un

pan ddeuai Dafy John yno i gasglu'r rhent. Er mwyn cael amser i fynd i weld ei hen gartref, cyrhaeddai yn y bore ac 'roedd croeso tywysogaidd yn ei ddisgwyl. Bron yn ddieithriad, wrth fwyta ei ginio, ceid ymateb fel hyn gan y cyn-garcharor, 'Doeddwn i ddim yn cael y moethau hyn ar ford y brenin'. I gofio'r cyfnod hwnnw, dyma soned a gyfansoddwyd, yn yr wythdegau, gan un o ferched Bryndafydd:

Atgofion

Gweld 'nhad a mam yn croesi'r allt a'r cwm
  I drin y tir a chodi ŷd a gwair,
A ninnau'r plant, wrth ganfod beichiau trwm,
  O'n bodd yn gwneud ein rhan, a pharchu'u gair;
Y llenor mwyn yn dod ar ddiddan dro
  I gyrchu'r rhent bob tymor yn ei bryd,
Profiadau 'Wormwood Scrubs' yn dod i'r co'
  I'w hadrodd yno gyda'r lleill i gyd.
Fy mam, o'i linach ef, â'i chroeso gwir
  A'r gruddiau gwritgoch yn archwaethu'r wledd,
Er iddo grwydro draw i Ddyfed dir,
  Yr 'Hen Dŷ Ffarm' yn llawn o swyn a hedd.
O na chawn fynd yn ôl dros lwybrau'r daith
Ac eilwaith ddwyn y dyddiau gynt yn ffaith.[12]

Bu teulu arall, neu ddau, yn rhentu Pen-rhiw wedi hynny, cyn i'r llenor werthu'r fferm, ym 1966, am ddwy fil o bunnau. Rhoddodd yr arian i Blaid Cymru – mudiad y bu'n aelod gweithgar ohono oddi ar ei ffurfio ym 1925.

Cyfrannodd D.J. Williams yn hael at lenyddiaeth Cymru fel y gwyddys, ac fel teyrnged i'w gyfraniad gwerthfawr i lenyddiaith Gymraeg, cyflwynwyd gradd Doethor mewn Llên, Prifysgol Cymru (er anrhydedd) iddo ar Orffennaf 19eg, 1957. Yn ogystal, ym 1964, etholwyd ef yn llywydd Academi Ysgrifennwyr Cymraeg, ac yn yr un flwyddyn, paratowyd cyfrol deyrnged, er anrhydedd, iddo. Fel ei fam, cymeriad di-hunan oedd Dafy John. Nid oedd yn chwennych sylw personol, ond er mwyn bod yn foneddigaidd, derbyniodd yr anrhydeddau hyn.

Ar nos Sul, Ionawr 4ydd, 1970, daeth yn ôl i gadeirio mewn cyngerdd yng Nghapel Rhydcymerau. Dechreuodd ei anerchiad yn llawn hiwmor iach, yna newidiodd i'r lleddf. Soniodd am yr 'Hen Wynebau', gan gyfeirio at y bobl a gofiai yn dod i'r capel – eu henwi a dangos y seddau lle'r eisteddent. Cyfeiriodd hefyd at y 'Cwmwl Tystion'. Apeliodd ar y gynulleidfa i ddarllen

y Cymro a'r Faner, ac i lynu wrth yr hen werthoedd, gan ymddwyn a meddwl fel Cymry. Ei eiriau olaf oedd eiddo ei gyfaill, Saunders Lewis, – "Fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu". Dychwelodd i'w sedd at Gwynfor Evans a D.O. Davies a bu farw'n frawychus o sydyn, ar yr union ddyddiad y gadawodd ei gartref, am y tro cyntaf, i weithio yn y gwaith glo – y 4ydd o Ionawr! Cwblhawyd y cylch. Daeth 'nôl i'r filltir sgwâr, lle dechreuodd ei daith, a chladdwyd ef ym mynwent Capel Rhydcymerau, yn 84 mlwydd oed.

Ym mis Awst, 1970, cyhoeddwyd cyfrol o Gerddi Coffa iddo. Dyma rai dyfyniadau ohonynt:
Y pennill olaf o'r delyneg, 'Rhydcymerau', gan S. Idris Evans

A phan fydd rhaid im groesi'r dŵr
I fyd yr hen wynebau,
Gobeithio'r wyf, os Duw a'i myn,
Cael croesi'n Rhydcymerau.[13]

Rhan o gerdd James Nicholas:

Y nos Sul o'r Suliau,
Yr araith o'r areithiau,
A marw yn Rhydcymerau.[14]

Englyn G.R. Tilsley:

Llon heintus a llawn antur, – bu'n fyw iawn
Heb un funud segur;
Daliodd, er brad a dolur,
I'w wlad a'i hiaith fel y dur.[15]

Ar Fehefin 26ain, 1985, dathlwyd canmlwyddiant geni D.J. Williams yng Nghapel Rhydcymerau. Bu amryw yn talu teyrngedau iddo. Gellir ei goffáu fel Cristion, cenedlaetholwr, gwleidydd a llenor. Dyma un o Gymry mwya'r ganrif, ac heb amheuaeth, bu dylanwad y cartref, y capel a'r ysgol yn drwm ar ei fywyd. Ei brif nodweddion oedd penderfyniad a gwroldeb. Safodd yn gadarn dros ei wlad gan lafurio'n ddygn i warchod ei etifeddiaeth.

**John Thomas**

Ganed John Thomas ar Orffennaf 18fed, 1892 ym Mryndifyr, Esgairdawe, yn fab i Abel Thomas, o deulu Penllain a Hannah Jones o deulu Cae-mawr – dau deulu lleol ac iddynt gysylltiad agos â Chapel Esgairdawe. Gan mai tyddyn bychan oedd

Bryndifyr, arferai Abel Thomas fod yn garier, yn cario nwyddau megis ymenyn, wyau a chywion ieir, yn arbennig adeg y Nadolig, i'w gwerthu ym Mhontardawe, Clydach a Llansamlet yn ogystal ag ym marchnad Castell Nedd. Yn hyn o beth, dilynai ei dad a'i frodyr:

> ac ef, y mab yma, Abel Thomas . . . yw'r olaf a gofiaf i o'r hen deip o garier, a fu, fel y porthmon, yn ffigur mor bwysig ym mywyd Cymru.[16]

Arhosai Abel ar nos Iau a nos Wener yn nhafarn yr 'Old Star' yng Nghwmgors. Felly, fe gymerai'r daith dri diwrnod bob wythnos.

Cynnyrch ardal Esgairdawe oedd ganddo, yn bennaf. Âi gwragedd neu ferched ifainc y fro â'u nwyddau i Fryndifyr ar nos Fawrth neu nos Fercher. Rhoddai Abel swllt a thair am bwys o fenyn a deg a dimau am ddwsin o wyau. Câi yntau dipyn o elw ynddynt ar ôl eu cario i'r cymoedd gyda throl a cheffyl. Roedd yn rhaid pacio popeth yn ofalus, yn enwedig yr wyau. Gwnai Hannah, chwaer John Thomas hynny'n ddeheuig iawn a hwyrach fod John yn gwneud ei ran hefyd. Roedd yna focs mawr, pren wedi'i hoelio wrth lawr y 'float' neu'r cert, a hynny yn y pen blaen. Rhoddid tipyn o wair byr, a baratoai Abel Thomas at y gwaith, ar waelod y bocs, yna haen o wyau, ac felly ymlaen. Arferid codi chwech o wyau ar y tro o'r basgedi, – tri ymhob llaw, a thrwy hynny, gellid cyfrif yn hawdd sawl dwsin a roddid i mewn. Ar ôl llanw'r bocs, gosodid clawr trwm arno – dyma sedd y gyrrwr!

Rhoed yr ymenyn, y ffowls a chwningod, ambell waith, mewn bocsys eraill yn nes yn ôl a chedwid hwynt yn sych a diogel gan orchudd wedi'i glymu'n dynn. Gwyddai Abel o ble y deuai pob pwys o ymenyn am fod gwahanol argraff, neu brint, fel y'i gelwid, gan bob fferm. Byddai rhai o'r cwsmeriaid yn gofyn am yr un ymenyn bob tro. Fel rheol, o bren sycamorwydden y gwneid y 'clapper' a'r 'print' oherwydd nad oedd yn gadael blas annymunol ar y menyn. Er bod y drol yn wag wrth ddringo i fyny'r rhiwiau serth o gyfeiriad Llansawel ar nos Sadyrnau, digon blinedig oedd y gyrrwr a'r ceffyl erbyn cyrraedd Bryndifyr. Ond, 'roedd y cyfan yn werth yr ymdrech, er mwyn cael 'dau ben llinyn ynghyd' wrth gynnal y teulu.

Cafodd John, y mab, ei addysg fore yn Ysgol Fwrdd

Esgairdawe a phan ddaeth D. Luther Johnson yno fel ysgolfeistr ym 1905, perswadiodd ef rieni John i fodloni iddo eistedd ysgoloriaeth i'w alluogi i gael ei dderbyn am flwyddyn i Ysgol Sir Llandeilo. Felly y bu, ac o hynny ymlaen, enillodd ysgoloriaethau arbennig yr ysgol yn flynyddol, gan lwyddo yn arholiadau allanol y 'Junior', 'Senior' a'r 'Higher'.

Roedd â'i fryd ar fod yn athro a bu'n ymarfer dysgu am flwyddyn yn Ysgol y Cyngor, Pont-iets, cyn symud ymlaen, ym 1912, i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth. Ymadawodd â'r coleg yn gynnar ym 1915 a bu'n dysgu, dros dro, fel prifathro Ysgol Crug-y-bar. Am chwe mis y bu yno, oherwydd 'roedd yn disgwyl galwad i'r fyddin. Daeth yr alwad a bu yno o 1915 hyd 1918, gan ymladd yn Ffrainc – yn Arras, Cambrai, brwydr Pilkem Ridge a Ypres ym 1917.

Pan ddaeth y rhyfel honno i ben, penderfynodd John barhau gyda'i addysg, gan astudio ar gyfer ei Dystysgrif Athro, a chael gwersi drwy'r post yn lle dychwelyd i'r Brifysgol. Llwyddodd eto, gan ennill y radd flaenaf yn yr arholiad honno. O ganlyniad, penodwyd ef yn brifathro sefydlog yn Ysgol Gwernogle, lle 'roedd Elizabeth Letitia Rees, o Gwm-ann yn dysgu. Pan agorwyd Ysgol y Cyngor Blaen-twrch, ger Ffarmers, derbyniodd John y swydd o fod yn brifathro yno, ac ym mis Rhagfyr 1923, ymbriododd yn Eglwys Llan-y-crwys ag Elizabeth L. Rees, a oedd erbyn hynny, yn athrawes yn Ysgol Llan-y-crwys. Ymgartrefodd y ddau yng Nglan yr Eryr, Cwmtwrch, ac yno y ganed eu merch, Margaret Eirianon. Yn y flwyddyn 1928, penodwyd John yn brifathro Ysgol Cwmifor, ger Manordeilo, ac yno yr arhosodd tan ei ymddeoliad ym 1957, pan aeth ef a'i briod i fyw i Landeilo. Dilynodd Eiri gamau ei rhieni a bu'n athrawes yng Nghaerdydd.

Prif ddiddordeb John oedd darllen Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys pob math o lyfrau heblaw nofelau. Y pynciau a apeliai ato oedd Athroniaeth, Diwinyddiaeth, Llenyddiaeth, Barddoniaeth, Erthyglau amrywiol, Beirniadaethau Llenyddol a Chofiannau. Bu'n cystadlu llawer mewn eisteddfodau lleol ac ennill cadeiriau ac ati, – cadair a choron ym Mhumsaint; coron Pont-henri; dwy gadair ym Mhencader; cadair Ysbyty Ystwyth, Llanddewibrefi, Peniel a Ffaldybrenin. Enillodd gadeiriau Cymdeithasau Caerdydd ac Abercrâf a nifer eraill hefyd rhwng 1926 a 1936. Wedi ymddeol, enillodd gadeiriau

Llangadog ym 1959, 1961 a 1963, a chadair Llanymddyfri ym 1961. Yn ogystal, bu'n beirniadu'r adroddwyr a'r cystadleuwyr llenyddol droeon mewn eisteddfodau lleol a phentrefi cyfagos.

Ni fu'n cyfansoddi dim o bwys yn ystod ei flynyddoedd olaf, ac eithrio rhai penillion i ffrindiau ar achlysur megis priodas, ond byddai'n mwynhau darllen barddoniaeth. Yn wir, diddorol a fyddai cynnwys rhai enghreifftiau o'i farddoniaeth, ond, dyma eiriau ei ferch, Eiri, – "Nid yw erioed wedi dangos diddordeb i gael ei farddoniaeth wedi ei gyhoeddi".

Bu farw Mrs. Thomas yng Ngorffennaf, 1985. Mae Eiri wedi ymddeol ers rhai blynyddoedd ac ymgartrefodd ei thad gyda hi yng Nghaerdydd am gyfnod hyd ei farwolaeth ar Fai 23ain, 1990, yn gant namyn tair blwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Sant Paul, Manordeilo.

**Arthur Lewis Jones**

Ym Mhistyll-gwyn bach, ger Pumsaint y ganed Arthur Lewis Jones yn y flwyddyn 1915. Ef oedd trydydd mab Thomas Lewis, Llundain fechan a Sarah, merch Maes-y-gwiail fach, – dwy fferm heb fod nepell o gapel Esgairdawe. Pan oedd Arthur yn dair oed, symudodd y teulu i fferm Llundain, sydd ar lan Tafwys yn ardal Esgairdawe.

Cafodd ei addysg yn Ysgol y Cyngor Esgairdawe, o dan ddau brifathro, yn eu tro, sef Alfred J. Thomas, brodor o Dre-lech, ac Evan H. Evans, genedigol o Lanybydder. Ef, ynghyd â dau ddisgybl arall, oedd y rhai cyntaf o'r ysgol i ennill anrhydeddau y 'Scholarship'. Bu Arthur yn Ysgol Sir Llandeilo hyd y flwyddyn 1932, pan dderbyniwyd ef i Goleg Dewi Sant, Llambed, a graddio yno ym 1935. Yn y cyfnod hwnnw, ei fwriad oedd bod yn offeiriad eglwysig, ond nid felly y bu.

Treuliodd rai blynyddoedd gartref gyda'i rieni a'i brif ddiddordeb oedd trwsio ceir. Un o'i gwsmeriaid gorau oedd y Parchedig Giraldus Jones. Pan fyddai angen peiriannydd arno, deuai â'i gar i Lundain, ei adael yn nwylo'r arbenigwr, mynd i ymweld â rhai aelodau, ar droed, a dychwelyd erbyn yr amser penodedig a chael y gwaith wedi ei gyflawni.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu Arthur yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas Ddiwylliadol a gynhelid o dan nawdd y capel. Gwelir ei enw'n aml yng nghofnodion y gymdeithas o 1937 hyd 1939. Bu'n cymryd rhan amlwg mewn nifer o'r

cyfarfodydd – darllen papur ar destun arbennig, cymryd un ochr mewn dadl, dweud gair mewn ymateb i ryw weithgareddau, eilio cynigiad neu gadeirio ambell noson. Gwnai hyn yn hollol gartrefol a chydwybodol, gan gyfrannu'n helaeth tuag at lwyddiant y nosweithiau hyn. Dichon iddo gael ei ymarfer, yn ei blentyndod, i fynychu'r Ysgol Sul hefyd.

Bu ei dad, Tom Jones, yn ddiacon ac ysgrifennydd y capel. Ceir ei hanes yn y bennod, 'Cofio'r Pererinion'. Yn y pumdegau, pan oedd effaith henaint yn dechrau amharu ar ei allu i ddal ysgrifbin, rhoddodd Arthur gymorth iddo i gyflawni llawer o'r gwaith ysgrifenedig. Roedd Sarah, ei fam, yn aelod ffyddlon o'r capel. Deuai i bob oedfa, boed law neu hindda, gan gyfrannu'n helaeth at gynorthwyo'r gân mewn capel bach, gwledig fel hwn.

Ym 1941, ymunodd Arthur â'r Llu Awyr. Bu yno fel hyfforddwr hyd 1946, gan elwa'n fawr ar ei brofiadau. Deuai adre'n achlysurol a bu'n rhoi anerchiad yng nghyfarfodydd canmlwyddiant y capel ym 1944.

Wedi gadael yr Awyrlu, penderfynodd baratoi ei hun i fod yn athro, gan dreulio'r cyfnod, o 1947 hyd 1948, yn yr adran hyfforddi athrawon yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar ôl cwblhau'r cwrs, penodwyd ef yn athro gwaith metel yn Ysgol Gyfun Llambed, lle bu o 1948 hyd 1975, pan ymddeolodd yn gynnar. Ar ddechrau'r pumdegau, priododd â Margaret Harris, a oedd yn gydfyfyrwraig ag ef yn Aberystwyth. Bu hithau'n dysgu yn Ysgol Gyfun Llambed, yn athrawes Lladin a Mathemateg. Dyrchafwyd hi'n brifathrawes yr ysgol. Mae ganddynt ddau o blant, sef Sarah Bethan Lewis a Charles Alun Lewis. Bu'r teulu'n byw am gyfnod ym Mrynmelyn, Cwm-ann, cyn symud i'w cartref presennol, – Teifi Castle, y tu allan i dref Llambed.

**Annie Mary Jones**

Ganed Annie Mary, neu Nansi, fel yr adwaenir hi bellach, yng Ngwar-coed, Esgairdawe, yn un o bum plentyn Thomas a Sarah Jones. Fferm weddol fynyddig yw Gwar-coed, ryw filltir a hanner o'r capel, a welir y tu arall i'r cwm. Er y pellter, câi'r plant eu harfer i fynd i'r cwrdd a'r Ysgol Sul yn gyson, oddi eithr pan fyddai'r tywydd yn arw neu pan fyddent yn anhwylus.

Arferai plant Gwar-coed gynorthwyo gyda phob gorchwyl

ar y fferm hefyd a daw i gof Nansi, heddiw, eu bod, fel teulu, yn torri llafur ar y Banc rywdro a chlywed yn eglur y galarwyr yn canu "O Fryniau Caersalem" ar fynwent y capel. Roedd cymdogaeth dda yn ardal Esgairdawe yr adeg honno, a bu hynny'n gymorth i'r rhai a godwyd yno i gymdeithasu a chymryd diddordeb yn y bywyd o'u cwmpas wedi hynny. Tystia Nansi ac eraill o blant y fro fod cyfarfodydd y Sul, yn ogystal â'r profiadau yn yr ysgol ddyddiol, wedi dylanwadu'n fawr ar y rhai a godwyd yn yr awyrgylch hwnnw.

Wedi cyrraedd un ar ddeg oed, enillodd Nansi ysgoloriaeth i fynd i Ysgol Sir Llandeilo. Profiad newydd hollol oedd hwnnw, yn enwedig am fod rhaid lletya yn y dre a mynd adre am benwythnosau'n unig. Ambell waith, byddai hynny, hyd yn oed, yn amhosibl, yn enwedig pan fyddai eira ar lawr neu lifogydd ar y ffyrdd. Roedd Nansi a Sam, ei brawd, yn Llandeilo ar yr un adeg, a chaent hwyl arbennig ambell noson wrth ddychmygu gwneud "Geometry" o dan y sêr ar noson glir.

Bu Nansi'n meddwl llawer am aberth ei rhieni – mor awyddus oeddynt i'w plant gael addysg dda. Cofia am un dydd arbennig, pan oedd yn glawio drwy'r dydd ac yn amser i Sam a hithau ddychwelyd i Landeilo ar ôl gwyliau hanner tymor. Nos Lun ydoedd a'r glaw yn diwel i lawr, ond dyma nhw'n cerdded i Ben Gors Fach, ger Rhydcymerau, lle'r arferent ddal y bws. Wedi cyrraedd yno, clywsant nad oedd y bws yn rhedeg oherwydd y llifogydd. Yna, cerddodd y ddau i Lansawel, a olygai tua phedair neu bum milltir arall, gan obeithio bod bws yn mynd oddi yno. Dim lwc eto a gorfod troi tuag adre er mwyn mynd i ddal bws arall ar y groesffordd, ger Tafarn Jem. Erbyn hyn, wrth gwrs, 'roedd Nansi a Sam yn wlyb diferol ac wedi blino'n lân. Ond, gyda chefnogaeth eu rhieni, mynd a wnaethant a chael bws o'r diwedd, gan gyrraedd Llandeilo'n ddiogel, drwy drugaredd. Dengys yr hanesyn bach hwn gymaint oedd aberth rhieni'r cyfnod er mwyn eu plant. Cyfnod anodd ydoedd, heb lawer o gyfleusterau, ond dengys wahaniaeth mawr pan ystyriwn y diffyg ymdrech a welir heddiw, gyda'r holl gyfleusterau.

Daeth tro ar fyd eto pan dderbyniwyd Nansi i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth i ddilyn cwrs gradd B.A., cyn mynd ymlaen i wneud blwyddyn o ymarfer dysgu ar gyfer tystysgrif addysg. Erbyn hyn, 'roedd y wlad ynghanol paratoadau ar gyfer

yr Ail Ryfel Byd. 'Doedd dim llawer o swyddi i'w cael i athrawon a nifer o'r cyfoedion yn gorfod ateb i alwad y gad. Roedd tre Aberystwyth yn llawn o fechgyn ifainc o bob gwlad, wedi ymuno â'r lluoedd arfog ac yn gwneud eu hymarferiadau ar y rhodfa ger y môr.

Bu'r flwyddyn ymarfer dysgu y tu hwnt o ddiddorol iddi. Roedd llawer o blant o Lerpwl wedi ychwanegu at nifer y dosbarthiadau – yr 'evacuees', fel y'u gelwid. Nid oedd ganddynt lawer o ddiddordeb yn eu gwersi ond 'roeddent yn syndod o gyfeillgar ar waetha'r ffaith eu bod mor bell o'u cartrefi. Roedd yn rheidrwydd ar y myfyrwyr hyn i wneud pythefnos o ymarfer dysgu yn eu hysgolion gartref cyn dechrau ar y flwyddyn ymarferol. Dyma gofnod i ddangos fod Nansi wedi gwneud hynny:

> 22.9.'38 – Miss Annie M. Jones, Gwarcoed, a student at the U.C.W., Aberystwyth commenced a fortnight's Teaching Practice at this School on Monday, the 19th inst.[17]

Daeth blwyddyn yr ymarfer dysgu i ben a daeth yn amser i geisio am swydd. Bu'n ffodus i gael gwaith, dros dro, yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth, i ddysgu Lladin, gan fod yr athro i ffwrdd gyda'r llu awyr. Yno y bu am bedair blynedd, pan gafodd fynd i Ysgol Ramadeg Aberaeron, lle treuliodd amser hapus. Cofia am y cyngherddau a gynhelid i groesawu'r milwyr adref ac am wersyll y Pwyliaid ar y bryn, lle bu rhai o'r athrawon yn dysgu Saesneg iddynt.

Ym 1947, priododd Nansi â David Jones o'r Tymbl, gan ymgartrefu yng nghwm Gwendraeth. Ni chwenychodd am swydd ddysgu wedyn oherwydd i'w phriod golli ei iechyd. Teimlai fod galwadau teuluol yn gryfach na dim arall ar y pryd. Felly, llanw bwlch a wnai pan fyddai galw am hynny. Ganwyd ei mab, Huw, ym 1949, ac erbyn hyn, mae'n feddyg ymgynghorol yn Ysbyty Addenbroke yng Nghaergrawnt.

Pa le bynnag yr âi Nansi i ddysgu, byddai'n mynychu'r Ysgol Sul yn gyson. Deil yn ffyddlon i'r sefydliad o hyd a diau mai yn Esgairdawe ac yn y capel bach, yn arbennig, y dechreuodd yr awydd i gadw 'mlaen ar y llwybr hwn. Dysgodd salmau dirif yn Ysgol Sul Esgairdawe ac erys rhai ohonynt ar ei chof hyd heddiw. Pan gafodd ei derbyn yn aelod o'r capel, cafodd *Feibl* i gofio'r achlysur. Mae'n dal i fod yn un o'i hoff drysorau a

pha le bynnag yr â ar hyd y byd, bydd yn mynd â'r *Beibl* hwnnw gyda hi, ac yn ei gyfrif yn "Llusern i'w thraed a llewyrch i'w llwybr". Bu Nansi'n gweddïo droeon mewn cyfarfodydd gweddi yn Llofft Fach Esgairdawe. Cofia'n dda am y tro cyntaf yr aeth ar ei gliniau, a'r diweddar Barchedig Giraldus Jones yn penlinio gyda hi i'w chalonogi am ei bod braidd yn nerfus.

Cymerodd ddiddordeb mewn Eisteddfota hefyd. Dysgodd lawer o blant i adrodd a chydadrodd. O ganlyniad, cafodd y fraint o feirniadu'r grefft yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ac Eisteddfodau Cenedlaethol Cymru. Dechreuodd y diddordeb mewn adrodd ar yr aelwyd gartref, yng Ngwar-coed, lle'r hyfforddwyd hi a'i brodyr a'i chwiorydd gan eu tad, Thomas Jones.

**W.J. George**

Ganed William James George ym Mryndafydd uchaf, Esgairdawe ym 1926 – y pedwerydd o bum plentyn George a Mary Anne. Addysgwyd yntau yn yr ysgol leol a phan oedd yn un ar ddeg oed, dyma'r cofnod a welir pan adawodd yr ysgol:

> 9.9.'37 – William James George is withdrawn from the Register as he has gained a 'Special Place' at Llandilo County School.[18]

Bu'n ddisgybl yno hyd 1943, gan ennill Tystysgrif Ysgol ym 1941 a'r Dystysgrif Uchaf ym 1943. Yn wyneb y canlyniadau hyn, enillodd Ysgoloriaeth y Sir ac Ysgoloriaeth y Wladwriaeth a'i dderbyn yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth i astudio Mathemateg a Ffiseg. Wrth edrych yn ôl dros ei yrfa, daw dwy garreg filltir bwysig i'w gof. Y gyntaf yw honno pan gafodd ei hun, yn llanc dwy ar bymtheg oed, yn cofrestru yn y Brifysgol. Er mai yng nghanol cyfnod yr Ail Ryfel Byd ydoedd, 'roedd bywyd colegol mor gyflawn a buddiol ag ydyw ar unrhyw adeg arall. Enillodd ei radd, Baglor mewn Gwyddoniaeth ym 1945.

Cyn diwedd y flwyddyn honno, ymunodd â chwmni olew "Anglo Iranian" (a adnabyddid, yn ddiweddarach, fel "The British Petroleum Company"), a hynny fel Ffisegydd Daearegol. Bu'n gweithio ynglŷn ag arolygon ymchwil olew ym Mhrydain cyn cyrraedd ail garreg filltir ei fywyd, rai dyddiau'n brin o dair ar hugain oed, pan deithiodd ar awyren o Faes Awyr Llundain i Efrog Newydd, ar ei ffordd i Bapua, Gini Newydd.

Ychydig a feddyliodd William y pryd hwnnw, mai dyma oedd cychwyn yr hyn a droes allan yn ddeugain mlynedd o ddelio â masnach ymchwil rhyngwladol cwmni olew. Dyna hefyd, oedd dechreuad bywyd hynod ddiddorol, gyda mesur helaeth o anturiaeth. Dygodd ei waith ef i bob cyfandir, gan osod ei gartref mewn o leiaf bymtheg o wledydd. Yn hyn o beth, cafodd gymorth oddi ar Ebrill, 1956, gyda'r digwyddiad pwysicaf yn ei fywyd, pan briododd â Mary Sonia Smalley, genedigol o Nottingham. Bu'n cyd-deithio â William i bobman, gan lwyddo i baratoi cartref cysurus ymhob rhan o'r byd. Gwelsant gyfnewidiadau mawr wrth fyw ymhlith pobl o amrywiol ddiwylliant, iaith, crefydd, hanes, cefndir ethnig ac athroniaeth wleidyddol. Yn ychwanegol, rhaid cynnwys hinsawdd, bwyd, cartref a phrofiadau gwahanol.

Treuliodd William ddwy flynedd a hanner ym Mhapua, ei faes cyntaf mewn gwlad dramor. Roedd yn brofiad hollol anghyfarwydd iddo ei gael ei hun, yn ieuanc a hawdd argraffu arno, yn byw o dan amodau mor ddieithr. Yn ardal y delta, yng ngorllewin y wlad, y bu am y rhan fwyaf o'r amser – mewn jyngl trwchus, corsydd coediog, llwybrau dyfrllyd ac iseldiroedd ynysig. Roedd yn rhaid byw o dan gynfas neu mewn cabanau pren, a chan fod yno bla o fosgito, byddai cwsg yn amhosibl heb rwydau. Yno hefyd yr oedd y neidr, y gele a'r scorpion wrth y miloedd.

Dychwelodd William i Brydain ym mis Mai, 1951 a'r wlad nesaf y bu'n gweithio ynddi fel Ffisegydd Daearegol oedd rhan o ogledd Iraq, a elwir wrth yr enw 'Kurdish'. Yn y dyddiau hynny, gwlad o dan lywodraeth brenin oedd Iraq.

Yn ystod y pumdegau, treuliodd ddwy flynedd yn nhrofannau Affrig, a hynny, yn bennaf yn Tanganyika a Zanzibar. Yr adeg honno, hynny yw, cyn cyfnod annibyniaeth, 'roedd y ddwy o dan lywodraeth warcheidiol Prydain a gellid canfod eu bod yn cael eu gweinyddu'n effeithiol. Erbyn heddiw, maent yn annibynnol a bywyd yno'n hollol wahanol, yn arbennig mewn cysylltiad â hawliau dynol. Bu William yn Dakar, Senegal, Gorllewin Affrig am gyfnod, wedi'i ddyrchafu yn Ffisegydd Daearegol hŷn, yn cyflawni gwaith arolygwr yn bennaf. Golygai hyn fod byw mewn cabanau yn perthyn i'r gorffennol.

Ar ôl treulio ychydig amser yng Ngeneufor Persia, symudodd o anialwch y Dwyrain Canol i ganol Manhatten, prifddinas

fwyaf llygredig y byd. Bu yn Efrog Newydd o Fai, 1961 hyd Fawrth, 1964 – erbyn hynny yn reolwr ymchwil olew.

Cafodd brofiad unigryw yng Ngholombia, De America, o 1964 hyd 1966, pan oedd yn rheolwr cwmni Petroliwm Prydeinig ac America. Gan mai Sbaeneg yw'r iaith genedlaethol, mae'n hanfodol ac yn gymharol hawdd i'w dysgu. Yn Bogota, cyfarfu William â'r gwladgarwr Cymreig nodedig, Hywel Hughes. Rhaid ei fod yn drigain a deg y pryd hwnnw, ac wedi byw yng Ngholombia am hanner can mlynedd. Sefydlodd fferm wartheg enfawr a gâi ei rhedeg gan ei ddau fab, o dan ei reolaeth ef. Byddai William a Hywel yn cyfarfod i giniawa yn achlysurol, gan siarad Cymraeg yn unig. Roedd gan y gŵr hwn le cynnes yn ei galon i'r Eisteddfod Genedlaethol a gweithgareddau diwylliannol Cymreig eraill, pa rai a brofai o'i haelioni cyson. Roedd wedi ffynnu mewn gwlad estron ond yng Nghymru yr oedd ei galon.

Ym 1966, dychwelodd William i Lundain, gan weithio am ddwy flynedd yn swyddfa'r cwmni ac edrych ar ôl buddiannau yn Iran ac Iraq. Erbyn hyn, 'roedd Petroliwm Prydeinig wedi dechrau drilio'r ffynnon a ddatblygodd i fod y maes olew mwyaf a ddarganfyddwyd erioed yng Ngogledd America, sef yn Alaska. Ym mis Tachwedd, 1968, gofynnwyd i William fynd yno a dyma un o brofiadau mwyaf ei fywyd. Roedd y brodorion yn garedig a pharod eu cymorth – lle mae bywyd yn anodd y gwelir yr ysbryd cymdogol a chymdeithasol fwyaf amlwg a datblygedig. Treuliodd chwe mis yno, gan gyfrannu'n helaeth tuag at y darganfyddiad hwn.

Cynhyrchodd sir Gaerfyrddin enwogion mewn nifer o feysydd a gellir honni fod William yn eu plith gyda'r weithred hon. Gwaith caled a chyffrous oedd bod yn rheolwr y maes. Digwyddodd y gaeaf hwnnw, yn Alaska, fod yr oeraf a gofnodwyd, a daw i'w gof un diwrnod teg ym mis Mawrth, 1969, pan oedd y tymheredd 52 o raddau o dan bwynt rhewi. Ni fedr neb fyw mewn tymheredd o'r fath heb ddillad priodol. Mae'n dweud llawer am y corff dynol, – gall oddef y fath dymheredd isel un diwrnod a gwres llethol, 120°F y Dwyrain Canol y dydd canlynol. Gweithiodd William ymhob tywydd, o'r jyngl tawchog yng Ngini Newydd i wres bygythiol y Gwlff a diffeithwch rhewllyd yr Arctig. Er hynny, ni feddyliodd erioed am newid ei waith oherwydd bod y gorchwyl o ymchwilio olew mor

gyffrous. Mae yna, bob amser, le newydd a her newydd y tu hwnt i'r gorwel.

Er pan deithiodd o Lundain i Efrog Newydd ym mis Ionawr, 1949, ymddengys iddo dreulio llawer o'i amser yn hedfan o un lle i'r llall. Bu'n teithio bron ymhob math o awyrennau – o'r rhai bychain, un peiriant i'r siet fwyaf modern, gan gynnwys dwy daith yn groes i Fôr yr Atlantig mewn Concord. Fel pob ymchwiliwr trofannol neu genhadwr o'r dyddiau gynt, y ffordd arferol o deithio drwy'r jyngl ym Mhapua, os nad ar droed, ydoedd mewn canŵ, yn cael ei badlo gan griw o frodorion.

Bu'n gweithio mewn llawer o wledydd lle mae crefydd yn rym nerthol, yn arbennig yn y cymunedau mwyaf hwyrfrydig a thlawd. Rhaid profi grym Islam yn ardaloedd Mohametanaidd y byd cyn y gellir ei ddeall, – gall y penboethni fod yn frawychus ar adegau. Yng ngwledydd tlotaf De America, er enghraifft, canfyddir fod grym Catholigaeth yn symbol nerthol o obaith i'r torfeydd.

Mae natur ei waith, dros ddeugain mlynedd, wedi bod yn ffynhonnell o'r antur fawr yn ei fywyd. Er gwaethaf y newidiadau daearyddol cyson a ddigwyddodd yn natblygiad y blaned hon, dros gannoedd o filoedd o flynyddoedd, ychydig ar wahân i gyfnewidiadau arwynebol a brofwyd yn ystod hanes yr hil ddynol. Mae'r math o waith a gyflawnodd fel gwyddonydd daearegol yn ymwneud â chrystyn y ddaear, ei natur, ei gyfansoddiad a'i gymhlethdod saernïol. Datblygiad cymharol ddiweddar yw gwyddoniaeth ffiseg daearegol, a'i gymhwysiad i'r gwaith o ddarganfod olew a nwy, a hynny yn y tridegau. Felly, pan ymunodd William â'r cwmni olew ym 1945, 'roedd y gwaith yn ei fabandod, a mynych y bu ef yn flaenaf i ddarganfod ffeithiau newydd am y ddaear y trigwn arni.

Ar un adeg, bu mewn ardal tua chant a hanner o filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain o Baghdad. Honnir mai dyma safle'r tanau ym Mabilon, y sonnir amdanynt yn y Beibl. Yn wir, 'roedd yno lawer o olew a nwy yn gollwng a allai fflamio'n hawdd yng nghyfnod y Beibl, yn ogystal ag yn yr oes hon. Gwaith William oedd ceisio darganfod pa mor ddwfn oedd y gronfa olew a faint o olew a gynhwysai. Sefydlwyd tîm o ddeg ar hugain – pump ohonynt yn Brydeinwyr a'r lleill yn frodorion. Roeddent yn byw mewn pebyll, ac ar wahân i'r ffaith fod ganddynt radio a chyfarpar technegol, a cherbydau addas i'w cludo, nid oedd

yr olygfa yn annhebyg i'r hyn ydoedd yn nyddiau'r Hen Destament a'r Newydd.

Daw'r noson y rhoddodd y cwmni olew ginio yn y gwersyll i'r pennaeth lleol a'i gefnogwyr yn fyw i'w gof. Kurd bonedd-igaidd, oedrannus oedd Sheikh Abdulla Beg, arweinydd llwyth o oddeutu mil o bobl. Eisteddai William nesaf ato, a thrwy gyfieithydd, dywedodd ei fod yn falch o'r fraint a gafodd pan dderbyniodd fedal "Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig" oddi wrth y brenin, Siôr y 6ed. Fe'i cafodd am ei gymorth i achos y cynghreiriaid adeg yr Ail Ryfel Byd.

Wedi hyn, cafodd brofiadau amrywiol yn Efrog Newydd, Libya, Môr y Gogledd a Seland Newydd. Heb amheuaeth, yr olaf oedd un o'r lleoedd gorau y bu ef a'i briod yn byw ynddo. Dichon fod y bobl dipyn yn araf ond maent ymhlith y rhai mwyaf cydnaws yn y byd am eu caredigrwydd a'u croeso diffuant. O Holand y daeth yr alwad nesaf a Norwy wedi hynny, gan dreulio'r blynyddoedd rhwng Mehefin, 1977 hyd ddechrau 1983 yn Oslo, yn Gyfarwyddwr y ddau gwmni Petroliwm Prydeinig. Daeth yn ôl i Lundain a chymryd ymddeoliad cynnar ym mis Tachwedd 1984. Oddi ar hynny, bu'n gweithio fel ymgynghorydd – yn cynghori rhai o'r cwmnïoedd olew bychain ar faterion ymchwil, yn bennaf ym Môr y Gogledd. Mae ganddo ddau o brif gwsmeriaid, un â'i chanolfan yn Norwy a'r llall yn Llundain.

Roedd amryw yn ardal Esgairdawe, yn negawdau cynnar y ganrif hon, yn cymryd diddordeb yn nyrchafiad plant y fro, yn arbennig Josi'r gof lleol. Saif ef allan fel person amryddawn – yn ddiwylliedig a deallgar ar un llaw, ond yn gyfarwydd hefyd â phrofi gerwinder bywyd yn gyffredinol. Anaml y gwelid drws yr efail ar gau. Yn ogystal ag oedolion, âi plant yr ardal yno'n gyson. Roedd Josi'n aelod ffyddlon o Gapel Esgairdawe, yn storïwr profiadol a bardd medrus, gyda chadeiriau Eisteddfodol yn brawf o'i dalent farddol. Yn ei lencyndod, treuliai William lawer orig yn ei gwmni tra'n aros iddo gwblhau rhyw waith trwsio haearn. Nid oedd Josi'n weithiwr cyflym oherwydd bod adrodd storïau'n aflonyddu ar ei waith; yr unig ffordd i sicrhau bod y gorchwyl yn cael ei gyflawni oedd aros gydag ef a mwynhau'r ymddiddan. Roedd ganddo restr eang o hanesion, ac, yn anochel, byddai'n cynnwys rhai o'i brofiadau cynnar yn y cymoedd diwydiannol,

yn bennaf yn y gweithfeydd dur o gwmpas Abertawe.

Diddorol hefyd oedd gweld Josi yng nghwmni ei hen gyfaill Tom Richards, (tad yr arlunydd enwog, Ceri Richards, o'r Dunvant, ger Abertawe) pan ddeuai i dreulio'i wyliau haf yng Nglantawe, cartre Josi. Yn arwynebol, ymddangosai'r ddau hen gydweithiwr yn hollol wahanol, ond, 'roedd fel pe bai eu cyfeillgarwch wedi ei sicrhau yn gynnar iawn ar sail llyfrau, barddoniaeth a chrefydd. Pleser oedd bod yn eu cwmni. Meddai Tom Richards y ddawn i ddylanwadu ar Josi a pheri iddo adael ambell gymal garw allan o'i storïau.

Gymaint oedd balchder Josi wrth weld y rhai a ystyriai yn blant iddo yn dringo ym myd addysg, fel yr ymatebai i hynny. Pan aeth William i'r Brifysgol ym 1943, derbyniodd gerdd o dri phennill oddi wrtho. Ni fedr William farnu teilyngdod barddol y llinellau, ond, iddo ef, dyma'r gerdd fwyaf prydferth a ddarllenodd erioed, yn enwedig pe gellid atseinio'r teimlad a fynegir yn y cwpled olaf. Byddai'n rhyfeddol, yn nhŷb William, pe bai'n bosibl drwy ryw ryfedd wyrth, fod yng nghwmni'r cawr hynaws hwn o ddyddiau plentyndod unwaith eto.

**I William James George, Aberystwyth**

Dring di Willie bach at y Seren
Mae gwyddor a chelf o gylch hon
Mae mawrion y byd wedi dringo
A dringo hyd ati ymron;
Rho gribad i ystlys Orëon
Neu Mars, a myn wybod ei hiaith,
Ti gofi'r gynghanedd sydd yno
'Rwy'n siwr wedi Croesi y paith.

Daw ambell hen freuddwyd terfysglyd
I flino dy gwsg ganol nos
Ti gofi stori 'rhen Jacob
A'i ymdrech ar oledd y rhos;
A'r angel yn esgyn a disgyn
A'r fendith bob tro yn ei gôl,
Mae llwyddiant yn dilyn pob ymdrech
Ni cheidw 'run iota yn ôl.

'Rol cyrhaedd y talar mewn henoed
Melysol fydd trem dros y daith,
Y pin ysgrifennu yn llorpyn
A'r inc wedi gorffen ei waith: